

Ymweliad â Chwarel Herbert

<p>Amcanion dysgu: Erbyn diwedd y wers, dyma beth ddylai'r disgyblion fod wedi'i ddysgu:</p> <ul style="list-style-type: none">• Dethol a chofnodi o arsylwi'n uniongyrchol ar yr amgylchedd• Cymharu syniadau a dulliau o gynrychioli'r dirwedd• Deall yr effaith mae diwydiant wedi'i gael ar y dirwedd	
<p>Geiriau allweddol: tirwedd, calchfaen, odyrau, siâp, ffurf, lliw, gofod, gweadedd a phatrwm, safbwyntiau, persbectif, blaendir a chefnidir</p>	
<p>Cyflwyniad:</p> <p>Sicrhewch eich bod wedi gweld y map o'r daith a darllen y cyngor diogelwch cyn ymweld â'r safle.</p> <p>Pwrpas yr ymweliad ydy er mwyn i'r disgyblion gasglu gwybodaeth weledol a gwybodaeth arall i'w helpu i ddatblygu syniadau am y dirwedd. Dylid aros yn aml ar y daith er mwyn i'r disgyblion allu tynnu lluniau, ysgrifennu nodiadau neu fraslunio.</p>	<p>Amseru</p>
<p>Prif ran:</p> <p>***Dylai lluniau digidol gael eu tynnu ar gyfer trafodaeth ddiweddarach yn y dosbarth, a dylai'r disgyblion fod â llyfrau nodiadau er mwyn gwneud nodiadau neu dynnu lluniau. ***</p> <p>Dylai athrawon ddefnyddio'r canllaw i'r daith er mwyn cyfarwyddo'r disgyblion o gwmpas y safle, gan aros mewn mannau amrywiol i ddangos nodweddion. Mae'r wybodaeth ynglŷn â'r nodweddion hefyd yn cael eu cynnwys yn yr uned hon. Ar gyfer dysgwyr iau, gall yr wybodaeth gael ei darllen iddyn nhw, ond gellir ei rhoi i'r disgyblion hŷn er mwyn caniatáu iddyn nhw ddod o hyd i'r nodweddion a dysgu amdany'n nhw'n annibynnol. Gellir asesu eu dysgu trwy set o gwestiynau sy'n cael eu cynnwys yn yr uned hon. Dylai'r disgyblion ddysgu am nodweddion fel calchbalmant, twffa a ffosilau, yn ogystal â fflora a ffawna. Yn ystod yr ymweliad, dylai'r disgyblion archwilio'r safle a chofnodi o brofiad a dychymyg. Dylai'r disgyblion fod â llyfr braslunio yn eu meddiant er mwyn tynnu lluniau yn ystod yr ymweliad. Dylen nhw hefyd allu tynnu lluniau digidol. Dylid gwahodd y disgyblion i feddwl am yr olygfa a nifer y ffermydd a'r caeau yn ogystal. Wrth wneud hyn, dylai ddod yn amlwg pam roedd calch mor bwysig yn y gymuned leol. Gwahoddir y disgyblion i feddwl am liwiau, siapiau a gweadeddau, yn ogystal ag arogleuon. Dylid gofyn iddyn nhw hefyd nodi ar bapur sut maen nhw'n teimlo mewn mannau gwahanol yn ystod yr ymweliad. Ni chaniateir i ddefnyddiau gael eu cludo o'r safle, felly rhaid i'r disgyblion feddwl sut y byddan nhw'n mynd ati i ail-greu ansawdd y defnyddiau ar y safle.</p> <p>Sylwch: Dydy'r safle ddim yn addas ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn na phobl lai abl.</p> <p>Yn dibynnu ar gyflymder y daith, dylid caniatáu rhyw ddwyawr ar gyfer yr ymweliad.</p>	<p>Caniatewch o leiaf ddwyawr ar gyfer yr ymweliad â'r safle</p>

Sesiwn lawn:

Gofynnir i'r disgyblion feddwl am yr hyn maen nhw wedi'i weld ar y safle. Gan y byddan nhw'n mynd ati'n fuan i greu eu delwedd eu hunain o'r dirwedd, bydd angen i'r disgyblion ystyried siâp, ffurf, lliw, gofod, gwadedd a phatrwm, yn ogystal â safbwyntiau, persbectif, blaendir a chefnidir.

Gwahaniaethu:

Bydd y disgyblion yn gallu gweithio yn ôl eu gallu eu hunain ar y project hwn wrth iddyn nhw greu eu darn eu hunain o waith. Fodd bynnag, efallai y bydd angen cymorth ychwanegol ar y disgyblion wrth ddewis tirweddau priodol a chynllunio'u gwaith.

Asesu:

Trwy gyfrwng sesiwn cwestiwn ac ateb ar ddiwedd y daith. Fodd bynnag, bydd y gwaith asesu tymor hir yn seiliedig ar y gwaith y byddan nhw'n ei greu.

Adnoddau:

*****Dylai'r staff gynnal asesiad risg llawn cyn ymweld â'r safle. Dylai ein gwybodaeth ni am y safle gael ei defnyddio fel canllaw yn unig ac nid yn lle asesiad risg llawn.*****

Gwybodaeth am y safle, map o'r safle, lluniau gwybodaeth am y daith a thafleenni gwybodaeth

Bydd angen i'r disgyblion ddod â llyfrau braslunio, llyfrau nodiadau, pensiliau, hogwyr a rwberei gyda nhw. Bydd angen camera digidol hefyd. Efallai y bydd angen pecyn bwyd yn ogystal. Rhaid cofio gwisgo dillad ac esgidiau addas ar gyfer yr ymweliad.

Cysylltiadau â llythrennedd/rhifedd:

Llythrennedd – gellir cysylltu'r wers hon â llythrennedd yn y ffyrdd canlynol:

- *Gofynnir i'r disgyblion siarad yn eglur gan ddefnyddio iaith briodol*
- *Cyfrannu at drafodaeth grŵp*
- *Gwrando ar eraill ac ymateb iddyn nhw*
- *Casglu a threfnu gwybodaeth o ffynonellau amrywiol*
- *Ehangu ar syniadau gyda rhesymau cefnogol*

Rhifedd – gellir cysylltu'r wers hon â rhifedd yn y ffyrdd canlynol:

- *Amseru digwyddiadau a threfnu canlyniadau*

Cysylltiadau eraill â'r cwricwlwm:

Hanes – archwilio hanes y safle a'i effaith ddaearegol

Cemeg – adweithiau cemegol calchfaen pan fydd yn cael ei losgi